# Paratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer paratoi a chynnal gweithgareddau i gwrdd â dewisiadau, anghenion a chanlyniadau unigolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio ag unigolion ac eraill i nodi a dewis gweithgareddau ac yna cymryd cyfrifoldeb dros baratoi, cynnal a gwerthuso’r gweithgareddau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i baratoi a chynnal gweithgareddau i gefnogi unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a gweithgareddau
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chadarnhau'r canlyniadau y bydd y gweithgareddau'n anelu at eu cyflawni yn unol â chynlluniau gofal neu gymorth
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gytuno ar sut y bydd gweithgareddau'n cael eu paratoi a'u cynnal yn unol â dewisiadau'r unigolyn, ac anghenion a gofynion y gweithgareddau
5. cefnogi annibyniaeth unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddewis gweithgareddau
6. adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau
7. cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi eraill i nodi, gosod a chael mynediad at amgylcheddau ar gyfer gweithgareddau
8. cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi eraill i nodi, gosod a chael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau
9. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynnal gweithgareddau
10. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i baratoi ar gyfer gweithgareddau a chymryd rhan ynddynt
11. annog a chynorthwyo unigolion pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau
12. cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi eraill i adael amgylcheddau'n lân ac yn daclus ar ôl y gweithgareddau yn barod i'w defnyddio y tro nesaf
13. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae'r gweithgareddau wedi cwrdd â'u dewisiadau, eu hanghenion a'r canlyniadau maent wedi cytuno arnynt
14. rhoi adborth ar sut mae'r gweithgareddau wedi cwrdd â'r dewisiadau, anghenion a'r canlyniadau yr oedd unigolion wedi cytuno arnynt
15. gweithio mewn partneriaeth i adolygu adborth, nodi arferion da a gwneud y newidiadau sy'n ofynnol i'r gweithgareddau
16. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer paratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i baratoi a chynnal gweithgareddau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a gweithgareddau, a sut mae adolygu a gwerthuso'r wybodaeth honno
2. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
3. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
4. sut mae cwblhau asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau
5. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol unigolion drwy addasu gweithgareddau
6. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
8. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau
9. y mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion yn ystod gweithgareddau, a sut i gael gafael arnynt
10. y gwahanol fathau o weithgareddau a'r effaith gadarnhaol y gallant ei chael
11. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i baratoi ar gyfer gweithgareddau a'u defnyddio yn ystod y gweithgareddau hynny
12. y mathau o amgylcheddau sydd fwyaf addas ar gyfer gweithgareddau, a sut i'w paratoi
13. y mathau o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau a sut i gael gafael arnynt, gan ystyried arferion cynaliadwy
14. sut mae cefnogi eraill i baratoi amgylcheddau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau, gan ystyried arferion cynaliadwy
15. y gwahanol sgiliau y gall eraill eu cyfrannu at weithgareddau, a sut i'w defnyddio
16. sut mae monitro cyfranogiad mewn gweithgareddau
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar weithgareddau
18. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar y cymorth sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau
19. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer paratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion

20. theorïau sy'n berthnasol i baratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion â gweithgareddau
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
23. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i baratoi a chynnal gweithgareddau
24. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod gweithgareddau
25. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth baratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth baratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Paratoi a chynnal gweithgareddau ag unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD325 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Paratoi a Chynnal Gweithgareddau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |